| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 28 Chwefror 2017 |
| **TEITL** | Ymchwiliad Iaith – GweledEdd yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd |
| **PWRPAS** | Cyflwyno argymhellion yr ymchwiliad |
| **AWDUR** | Y Cynghorydd Craig ap Iago, Cadeirydd yr ymchwiliad |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol, Perfformiad a Phrosiectau |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae Cynllun Strategol y Cyngor yn datgan bod y Cyngor am weld sefyllfa lle mae Gwynedd "yn parhau yn gadarnle i'r iaith, a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y sir."

1.2 Diben yr Ymchwiliad Iaith – Gwelededd yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd oedd ystyried y graddau y mae gwelededd yr iaith, mewn enwau, arwyddion a hysbysiadau ar draws y sir, yn bwysig o ran statws yr iaith a hyder trigolion yn ei defnyddio fel rhan naturiol o waith pob dydd. Roedd hefyd yn ystyried y graddau y mae gan y Cyngor ddylanwad dros y gwelededd hynny ac a oes angen i'r Cyngor wneud mwy.

1.3 Gwnaed hynny drwy:

a) Ystyried yr ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf o faes Cynllunio ieithyddol am bwysigrwydd gwelededd yr iaith a thirwedd ieithyddol.

b) Ystyried y meysydd lle y gall y Cyngor sicrhau dylanwad dros dirwedd ieithyddol y sir yn cynnwys:

- Rheolaeth y Cyngor o'i eiddo a'i diroedd ei hun
- Trefniadau caffael y Cyngor
- Amodau grantiau a chymorth y mae'r Cyngor yn ei ddyrannu
- Y graddau o ddylanwad sydd gan y Cyngor ar arwyddion a osodir ar ymylon ffyrdd
- Enwau tai a lleoedd

1.4 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno cyfres o argymhellion yr ymchwiliad er ystyriaeth y Pwyllgor Iaith cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r aelod Cabinet.

**2.0 Canfyddiadau'r ymchwiliad**

Mae'r adroddiad sydd ynghlwm (Atodiad 1) yn cynnwys y canfyddiadau, gyda nodyn o'r dystiolaeth y tu cefn i'r canfyddiad hwnnw ac wedyn argymhelliad yr ymchwiliad yn ei ddilyn. Mae'r argymhellion wedi eu rhifo (A1-25).

## 3.0 Gweithredu'r argymhellion

Mae gwaith yr ymchwiliad wedi bod yn cydredeg yn rhannol gyda gwaith yr awdit o sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd. Os bydd yr aelod Cabinet yn cytuno i weithredu'r argymhellion, yna awgrymir eu bod yn cael eu hymgorffori yng:

i) Nghynllun Gweithredu'r Awdit Iaith
ii) Nghynllun Cyfathrebu'r Awdit Iaith

Bydd yr hyfforddiant a ddaw yn sgîl canfyddiadau'r awdit iaith hefyd yn medru ymgorffori unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig gydag argymhellion yr adroddiad hwn.

Mae argymhellion yr ymchwiliad hefyd yn gyson gyda diwylliant Ffordd Gwynedd o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydan ni yn ei wneud ac yn cefnogi dyhead y Cyngor i weithredu'n rhagweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg.

## 4.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r aelodau ystyried argymhellion Ymchwiliad Iaith - Gweledедd y Gymraeg yng Ngwynedd i'w cyflwyno i'r aelod Cabinet.